EVANS, CARADOC (1878 - 1945), awdur



Enw: Caradoc Evans
Dyddiad geni: 1878
Dyddiad marw: 1945
Priod: Marguerite Florence Laura Evans (née Jervis)
Priod: Rose Jessie Evans (née Sewell)
Rhiant: Mary Evans (née Powell)
Rhiant: William Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Gwyn Jones

Ganwyd 31 Rhagfyr 1878 yn Pant-y-croy, Llanfihangel-ar-Arth, Sir Gaerfyrddin, mab William Evans , arwerthwr, a Mary (née Powell) - a'i fedyddio o dan yr enw David. Treuliodd y rhan fwyaf o'i febyd yn Lan-las, Rhydlewis, gan fynychu ysgol y bwrdd yno cyn cael ei brentisio mewn busnes gwerthwr dilladau, etc. Bu'n gweithio fel cynorthwyydd mewn siopau yng Nghaerfyrddin, Caerdydd, a Llundain. Yn Llundain âi i ddosbarthiadau yn Toynbee Hall a'r Working Men's College yn Crowndale Road a meistrolodd gelfyddyd ysgrifennu. Dechreuodd ysgrifennu i newyddiaduron a chylchgronau ar ei ben ei hun, sef fel 'free lance', eithr bu hefyd ar staff olygyddol rhai cylchgronau - yn enwedig *Ideas* a *T.P.'s Weekly*. Ymddangosodd ei ystorïau cynharaf yn yr *English Review*, 1914. Ei gyfrol gyntaf oedd *My People* , 1915. Parodd y gwaith hwn dramgwydd mawr i nifer helaeth iawn o'i gyd- Gymry, megis y gwnaeth popeth bron a ysgrifennodd ef wedi hynny. Cyhoeddodd bump casgliad o ystorïau byrion - *My People* 1915; *Capel Sion*, 1916; *My Neighbours*, 1919; *Pilgrims in a Foreign Land*, 1942; *The Earth Gives All and Takes All*, 1946; pump o nofelau - *Nothing to Pay*, 1930, ydyw'r gorau ohonynt; drama, *Taffy*, 1923; a *Journal*, a gyhoeddwyd wedi ei farw. Bu hefyd yn gwneud gwaith cynorthwyydd i ysgrifenwyr eraill. Rhestrir ei ystorïau gorau gyda rhai gorau ysgrifenwyr ei gyfnod. Yn 1934-35 dychwelodd i Gymru a bu'n helpu i redeg theatr yn Aberystwyth. Yn 1939 ymsefydlodd yn Aberystwyth ac wedyn yn New Cross gerllaw. Priododdd ddwywaith, (1), 1907, Rose Ware (ysgarwyd hwynt ar 8 Mawrth 1933), a (2), Mai 1933, Marguerite Helène (Oliver Sandys, y nofelydd), merch Cyrnol H. P. Jervis. Ni fu iddo blant. Bu farw 11 Ionawr 1945 (10 yn ôl *Who Was Who*) yn New Cross.

Awdur

Yr Athro Gwyn Jones, (1907 - 1999)

Ffynonellau

Western Mail, 12 Ionawr 1945

Oliver Sandys, *Caradoc Evans* (London 1946)

G. H. Green, rhagair i *The Earth Gives All and Takes All* (London 1946)

Catalog Llyfrgell Genedlaethol Cymru

John Harris, (gol.), *My People* (Penybont 1987)

John Harris, (gol.), *Fury never leaves us a miscellany of Caradoc Evans* (1985)

T. Ll. Williams, *Caradoc Evans* (Caerdydd 1970)

Darllen Pellach

John Harris, *Caradoc Evans: The Devil in Eden* (Bridgend 2018)

Erthygl Wicipedia: Caradoc Evans

Delweddau

LIGC: Caradoc Evans

Howell Brothers, William Evans, Pantycroy, Llandysul

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 72830405

Wikidata: Q5037598

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, G., (1970). EVANS, CARADOC (1878 - 1945), awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-EVAN-CAR-1878

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government